

## **Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ffurflenni tribiwnlys**

### **Diben**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn pennu'r safonau y gallwch eu disgwyl gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) pan fyddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol ('data personol') amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys; sut gallwch gael gafael ar gopi o'ch data personol; a'r hyn gallwch ei wneud os ydych yn teimlo nad yw'r safonau'n cael eu bodloni.

Mae GLITEM yn un o asiantaethau gweithredol yr MoJ. MoJ yw'r rheolwr data ar gyfer y data personol a gedwir, er gall weithio ar y cyd gyda GLITEM. Mae GLITEM hefyd yn casglu a phrosesu data personol er mwyn gweithredu ei swyddogaethau cyhoeddus cysylltiedig â'i rhwymedigaethau cyfreithiol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol o ran prosesu data personol sy'n cael ei gasglu a'i reoli gan y tribiwnlys a'i farnwyr pan maent yn gweithredu mewn capasiti barnwrol. Mae'r farnwriaeth yn annibynnol o MoJ a GLITEM ac mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn effeithio'n wahanol arni o ganlyniad i hyn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

[www.judiciary.uk/about-the-judiciary/judiciary-and-data-protection-privacy-notice/](http://www.judiciary.uk/about-the-judiciary/judiciary-and-data-protection-privacy-notice/)

### **Ynghylch data personol**

Gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r wybodaeth honno yw data personol.

Nid yw'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl wedi marw, grwpiau neu gymunedau o bobl, sefydliadau neu fusnesau. Gall gynnwys eich enw, eich cyfeiriad neu'ch rhif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am eich rhywedd, eich amgylchiadau ariannol, eich cefndir diwylliannol neu eich statws cymdeithasol.

Gwyddom ei bod yn hynod bwysig diogelu preifatrwydd bob unigolyn sy'n rhan o achos tribiwnlys a chydymffurfio â deddfau diogelu data. Byddwn yn diogelu eich data personol ac ni fyddwn ond yn ei ddatgelu pan fo'n gyfreithlon gwneud hynny neu gyda'ch caniatâd chi.

### **Mathau o ddata personol yr ydym yn eu prosesu**

Ni phrosesir ond y data personol sy'n berthnasol ar gyfer bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac er mwyn gweinyddu cyfiawnder. Gall y mathau o ddata a gasglir yn ffurflenni'r tribiwnlys gynnwys: eich enw, eich cyfeiriad, eich manylion cyswllt, eich amgylchiadau ariannol, eich ethnigrwydd, eich credoau crefyddol a manylion unrhyw unigolion eraill, gan gynnwys plant, y mae'r achos yn berthnasol iddynt, neu y gallant fod â diddordeb yn yr achos. Bydd y data personol fel arfer yn cael ei gasglu yn uniongyrchol gennych chi, eich cynrychiolydd neu gan unigolyn arall sydd wedi cynnwys eich data mewn ffurflen tribiwnlys mae wedi'i llenwi. Gellir cael eich data personol o ffynonellau eraill hefyd yn ystod cyfnod yr achos, er enghraifft gan adran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol sy'n barti i achos tribiwnlys, neu gan sefydliad megis ysgol neu ystyby, neu gan unrhyw barti i'r achos.

## **Pwrpas prosesu data a'r sail gyfreithiol dros brosesu**

Ein prif reswm dros brosesu data personol yw'r angen i wneud hynny at ddibenion gweinyddu cyfiawnder a chefnogi'r farnwriaeth annibynnol wrth gynnal y gyfraith ac wrth gyflawni cyfiawnder yn ddiuedd, yn gyflym ac yn effeithlon. Mae prosesu hefyd yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Cesglir a chedwir y data personol sydd ei angen at y diben hwn mewn ffurflenni tribiwnlys. Mae'n cael ei lwytho i gronfa ddata'r tribiwnlys hefyd, gan gefnogi'r broses o weinyddu cyfiawnder mewn achosion tribiwnlys. Defnyddir y gronfa ddata gan staff y tribiwnlys i reoli achosion a chasglu gwybodaeth o ansawdd da am gynnydd achos.

Mae ffurflenni'r tribiwnlys ar gael yma [www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-llysoedd-a-thribiwnlysoedd](http://www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-llysoedd-a-thribiwnlysoedd)

Yn gyffredinol, defnyddir y ffurflenni i gychwyn achosion neu i bennu camau gweithredu o fewn achosion presennol ac mae'r wybodaeth a ddarperir yn galluogi'r tribiwnlys i gyflwyno cyfiawnder a gwneud penderfyniadau pwysig. Fel yr esboniwyd uchod, mae deddfau diogelu data yn berthnasol i'r tribiwnlys mewn ffordd wahanol pan fo data personol yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio yn ystod achos.

Rydym yn prosesu data personol a gafwyd mewn achosion tribiwnlys at ddibenion ystadegol hefyd. Mae'r data personol yn ddiennw ac fe'i defnyddir i gynhyrchu ystadegau chwarterol ar weithgaredd tribiwnlysoedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Weithiau bydd GLITEM yn defnyddio manylion cyswllt i ofyn i ddefnyddwyr tribiwnlys a hoffent lenwi arolwg gwasanaeth cwsmeriaid i fesur bodlonrwydd defnyddwyr tribiwnlys a llywio meysydd i'w gwella.

### **Pan fyddwn yn gofyn am ddata personol gennych, byddwn yn addo:**

- rhoi gwybod ichi pam bod angen eich data personol arnom
- ni fyddwn ond yn gofyn am y data personol sydd ei angen arnom ac ni fyddir yn casglu gwybodaeth sy'n amherthnasol neu'n ormodol
- byddwn yn ei ddiogelu ac yn sicrhau na fydd unrhyw un sy'n cael ei awdurdodi yn gallu ei rannu â sefydliadau eraill, dim ond lle bo angen a'i fod yn cael ei ganiatáu gan y gyfraith (gweler isod)
- sicrhau nad ydym yn ei gadw'n hirach na sydd angen.

Gellir:

- gwneud cais i gael mynediad at eich data personol neu wneud cais iddo gael ei gywiro
- gwrthwynebu ein bod yn prosesu eich data personol a gofyn i'r prosesu gael ei gyfyngu
- cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler isod)

### **Y rhai y gellir rhannu'r wybodaeth â hwy**

Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei rhannu gyda ni yn cael ei rhannu gyda'r partïon eraill sy'n rhan o'r achos, gan gynnwys eu cynrychiolwyr cyfreithiol.

Ni fydd yr wybodaeth yr ydych yn ei rhoi inni yn cael ei rhannu gyda rhywun nad yw'n barti i'r achos oni bai ei fod yn cael ei orchymyn yn benodol gan y tribiwnlys neu bod Rheolau

Trefniadaeth Tribiwnlys (“y Rheolau”) yn ei ganiatáu. Nid yw’r math hwn o brosesu data gan dribiwnlys yn berthnasol i’r hysbysiad preifatrwydd hwn oherwydd fel rheol fe’i cyflawnir gan y farnwriaeth annibynnol.

Pan fydd yn ofynnol i ni rannu data personol byddwn yn cydymffurfio â phob agwedd ar y rheolau, gan gynnwys deddfau diogelu data. Gall categorïau y sefydliadau y bydd yn ofynnol inni rannu eich data personol â hwy, sef y data a gasglwyd o ffurflenni’r tribiwnlys, gynnwys asiantaethau sydd wedi’u contractio gan GLITEM (h.y. cyfieithwyr, cyfryngwyr, asiantaethau trawsysgrifio neu asiantaethau cyfieithu), adrannau eraill yn y Llywodraeth, tribiwnlysoedd neu lysoedd ac awdurdodau cyhoeddus o fewn neu tu allan i’r UE.

Yn amodol ar rai eithriadau a nodir isod, cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys yn gyhoeddus oni bai bod y tribiwnlys yn gorchymyn fel arall, felly os cyfeirir at yr wybodaeth a roddwch mewn gwrandawriad, yna gall ddod yn gyhoeddus yn y ffordd honno. Gall cynrychiolwyr o’r cyfryngau neu unigolion eraill fynychu ac adrodd ar wrandawiadau cyhoeddus, oni bai bod y tribiwnlys yn gorchymyn fel arall.

Mae’r achosion y mae’n rhaid eu gwrandao yn breifat wedi’u nodi yn y ddeddfwriaeth:

- Mae Adran 108 Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002 yn datgan bod yn rhaid i wrandawriad tribiwnlys gael ei wrando yn breifat lle yr honnir bod dogfen y dibynnir arni gan barti mewn apêl o dan adran 82 yn ffugiad, a bod datgelu i’r parti hwnnw ynghylch y ffugiad yn groes i les y cyhoedd.
- Mae Rheol 26 (2) Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (Siambwr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf) 2008 yn datgan bod yn rhaid i wrandawriad Tribiwnlys Haen Gyntaf gael ei wrando yn breifat os yw’n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig a gwahaniaethu o ran anabled mewn ysgolion, oni bai bod y tribiwnlys o’r farn ei bod er budd cyfiawnder i’r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus. O dan Reol 38, gwrandawir ar achosion iechyd meddwl yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn breifat hefyd, oni bai bod y tribiwnlys o’r farn ei bod er budd cyfiawnder i’r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus.
- Mae rheol 30 (2) Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (Tribiwnlys Haen Gyntaf, y Siambwr Hawl Cymdeithasol) 2008 yn datgan bod yn rhaid i wrandawriad Tribiwnlys Haen Gyntaf gael ei wrando yn breifat os yw’n cynnwys iawndal am anafiadau troseddol, oni bai bod yr apelydd wedi cydsynio bod y gwrandawriad yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a bod y tribiwnlys o’r farn ei bod er budd cyfiawnder i’r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus.
- Mae Rheol 48 (4) Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (Uwch Dribiwnlys) (Siambwr Tiroedd) 2010 yn datgan pan fo Siambwr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys yn gweithredu fel cymrodeddwr mewn cyfeiriad drwy gydsyniad o dan adran 1 (5) Deddf Tribiwnlys Tiroedd 1949, rhaid cynnal unrhyw wrandawriad yn breifat oni bai bod y partïon yn cytuno fel arall.

### **Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad**

Weithiau bydd rhaid trosglwyddo data personol i wlad dramor er mwyn sefydlu, ymarfer, neu amddiffyn hawliau cyfreithiol. Bydd y rheswm dros trosglwyddo a pha drydedd wlad sy’n cael yr wybodaeth wastad yn ddibynnol ar amgylchiadau’r achos, ond bydd unrhyw drosglwyddiadau o’r fath yn cael ei wneud gan gydymffurfio’n llawn â bob agwedd ar y gyfraith (mae ‘trydedd wlad’ yn golygu gwlad y tu allan i’r DU).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy anfon neges e-bost i [privacy@justice.gov.uk](mailto:privacy@justice.gov.uk)

## **Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gesglir**

Cyfarwyddir adrannau y Llywodraeth, asiantaethau a phob corff sector cyhoeddus arall i gadw unrhyw a phob darn o ddogfennaeth; gohebiaeth; nodiadau; negeseuon e-bost ac unrhyw wybodaeth arall (mewn unrhyw ffurf) a all gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol a cham-drin rhywiol plant neu sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu gofal plant. Mae'r gair 'plant' yn cyfeirio ar unrhyw unigolyn sydd dan 18 oed.

Mae cyfnodau cadw gwahanol yn berthnasol yn ddibynnol ar y math o achos rydych yn rhan ohono. I ganfod beth yw'r cyfnodau cadw a gweld gwybodaeth arall a all fod yn ddefnyddiol, gweler: [www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules](http://www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules)

## **Mynediad at wybodaeth bersonol**

Gallwch ganfod os oes gennym unrhyw ddata personol amdanoch drwy wneud 'cais gwrthrych am wybodaeth'. Gallwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth drwy gysylltu â'r Tîm Datgelu yn:

Tîm Datgelu  
Post point 10.24  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ  
E-bost: [data.access@justice.gov.uk](mailto:data.access@justice.gov.uk)

## **Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch:**

- Cytundebau sydd gennym gyda sefydliadau eraill ar gyfer rhannu data personol
- Amgylchiadau lle gallwn drosglwyddo'ch data personol heb roi gwybod i chi, er enghraifft, i'n helpu i atal a datrys troseddau neu gynhyrchu ystadegau dienw
- Ein cyfarwyddiadau i staff ynghylch sut mae casglu, defnyddio neu ddileu eich data personol
- Sut rydym yn gwirio bod y data personol sydd gennym yn gywir ac yn gyfredol
- Sut i gwyno

I gael rhagor o wybodaeth am y materion uchod neu ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

Y Swyddog Diogelu Data  
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ)  
3rd Floor, Post Point 3.20  
10 South Colonnades  
Canary Wharf  
Llundain  
E14 4PU  
E-bost: [DPO@justice.gov.uk](mailto:DPO@justice.gov.uk)

## Cwynion

Pan ofynnwn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw at y gyfraith. Os ydych yn credu bod eich gwybodaeth wedi cael ei thrin yn anghywir gan MoJ neu GLITEM, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar ddiogelu data. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Swydd Gaer

SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)